Gwasanaeth Tân ac Achub **De Cymru** | **South Wales** Fire and Rescue Service

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU**

**CYFARWYDDIAETH GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**
**Swyddog Cyfathrebiadau, Atynnu ac Ymgysylltu**
**37 AWR YR WYTHNOS**
**CYFEIRNOD: 503104**
**GRADD 7 - CYFLOG: £25,878 - £26,845**

**Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon.**

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n chwilio am weithiwr cyfathrebiadau ac ymgysylltu ymroddedig a chreadigol i ymuno â'n Tîm Y Wasg a Chyfathrebiadau prysur a leolir yn ein Pencadlys yn Llantrisant.

Mae cyfathrebu ac ymgysylltu ill dau'n chwarae rôl gritigol o fewn cenhadaeth y Gwasanaeth i 'gadw De Cymru'n ddiogel wrth leihau risg'. Bydd deilydd y swydd yn gweithio ar draws pob agwedd o gyfathrebu ac ymgysylltu, yn cynhyrchu datrysiadau arloesol wrth drefnu a hwyluso gweithgareddau ymgysylltu a chyfathrebiadau mewnol ac allanol. Bydd hyn yn cynnwys rheoli ymgyrchoedd, cysylltu â'r wasg, hwyluso a chydlynu digwyddiadau ymgysylltu lleol ac ar raddfa fawr.

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr feddu ar sgiliau ysgrifennu cryf a'r gallu i ychwanegu dawn greadigol i'n cynnwys a gynhyrchwyd yn fewnol, gan gynnwys diwgyddiadau a gweithgareddau sy'n ymwneud â recriwti, lleihau risg ac enw da'r Gwasanaeth. Bydd y swydd yn gofyn am weithio'n gydweithredol ag ystod eang o bartneriaid a rhanddeiliaid ar draws 10 o Awdurdodau Unedol gan ddefnyddio amrediad o ddulliau i sbarduno Strategaeth Gyfathrebiadau ac Ymgysylltu'r Gwasanaeth yn rhagweithiol.

O fewn y rôl amrywiol hon, ni fydd un diwrnod yr un poeth gyda therfynau amser cystadleuol, felly bydd angen i'r ysmgeisydd llwyddiannus fod yn effeithlon, yn drefnus a hyderus wrth weithio'n annibynnol. Yn ogystal â bod yn gallu defnyddio eich dyfeisgarwch a datblygu syniadau newyddd, mae'r Gwasanaeth yn chwilio am aelod tîm fydd yn mwynhau gweithio'n gydweithredol. Mae'r gallu i deithio'n hanfodol ar gyfer y swydd hon, gan fydd y rôl yn gofyn am ymgysylltu ag adrannau mewnol ar draws ein Gorsafoedd a'n safleoedd o fewn De Cymru gan gynnwys partneriaid allanol a rhanddeiliaid allweddol.

Os ych chi'n storïwr creadigol sydd â llygad barcud am stori o'r newyddion, ry'n ni'n edrych ymlaen yn eiddgar i glywed gennych!

**Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Manyleb Person a Swydd-Ddisgrifiad o'n gwefan www.decymru-tan.gov.uk.**

Dylid danfon ffurflenni cais gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Adnoddu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX neu drwy law e-bost at personél@decymru-tan.gov.uk. **Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 08/02/2023 am 12:00 o'r gloch.**

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg a Saesneg ill dau a chroesawn gyfathrebiadau yn y naill iaith â'r llall. Ni chaiff ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

**Mae GTADC yn credu fod gwir werth mewn cael gweithlu amrywiol ac rydym am fod yn rhagweithiol wrth annog ymgeiswyr o bob sector o'n cymuned i ymgeisio.**